


**Adroddiad ar y :**

## Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc

# Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Craffu

## Mehefin 2019

**Cyngor Caerdydd**

## PLANT A PHOBL IFANC
## AELODAU'R PWYLLGOR CRAFFU



Y Cynghorydd Lee Bridgeman (Cadeirydd)



Y Cynghorydd Dan De'Ath



Y Cynghorydd Philippa Hill-John



Y Cynghorydd Heather Joyce



Y Cynghorydd Linda Morgan



Y Cynghorydd Stephen Cunnah



Y Cynghorydd Mike Phillips



Y Cynghorydd Kanaya Singh



Y Cynghorydd Rhys Taylor

**Aelodau Cyfetholedig:**



**Mrs P Arlotte**



**Carol Cobert**



**Ms Rebecca Crump**



**Karen Dell'Armi'**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cynrychiolydd Catholig Rufeinig | Cynrychiolydd yr Eglwys yng Nghymru | Cynrychiolydd Rhiant-Lywodraethwyr | Cynrychiolydd Rhiant-Lywodraethwyr |

# RHAGAIR Y CADEIRYDD

Mae'n bleser gen i gyflwyno adroddiad blynyddol y pwyllgor ar gyfer 2018/2019. Yn gyntaf, hoffwn ddiolch i aelodau ac aelodau cyfetholedig y pwyllgor am eu gwaith caled, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r materion a'r gefnogaeth maent wedi'i rhoi i mi sydd wedi gwneud fy swydd fel cadeirydd yn haws o lawer. Hefyd hoffwn ddiolch i'r swyddogion craffu, sy'n cynnig cefnogaeth anhygoel nid yn unig i mi ond i'r pwyllgor cyfan, a'r tystion sydd wedi siarad â'r pwyllgor, gan roi o'u hamser gwerthfawr, yn enwedig gydag ymholiadau gorchwyl a gorffen.

Bues i'n falch o gadeirio'r pwyllgor hanfodol hwn; bu rhywfaint o aelodau newydd ac mae'r pwyllgor wedi ymwneud â hyfforddiant diddorol iawn, sydd wedi ein galluogi i gyflawni ein rôl fel cyfeillion beirniadol o'r cyfarwyddiaethau wedi'u halinio i'r Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc. Rwyf wrth fy modd bod y pwyllgor wedi cael cwota llawn o gynghorwyr ac aelodau cyfetholedig eleni, ac rwy'n gwybod bod aelodau eraill a hoffai gymryd rhan yn y pwyllgor, pe bai swydd wag yn dod i'r amlwg. Mae hyn yn dangos i mi pa mor bwysig ydy'r pwyllgor hwn yn y strwythur craffu.

Fel y byddwch yn gweld o ddarllen yr adroddiad hwn, bu'r pwyllgor yn ymwneud â chraffu ar rai penderfyniadau pwysig iawn sy'n effeithio ar fywydau pob dydd pobl ifanc sy'n byw yn y ddinas. Fel cadeirydd, rwy'n awyddus i roi llais i bobl ifanc felly mae eu gweld yn cael y cyfle i siarad, mewn pwyllgor ac fel tystion yn ein hymholiad eleni, wedi bod yn ystyrlon ac yn bwerus i'r pwyllgor; i'r perwyl hwn, gwahoddais i gynrychiolydd o'r Cyngor Ieuenctid i fynychu pob cyfarfod Pwyllgor yn y dyfodol. Derbyniodd y Cyngor Ieuenctid y gwahoddiad a phenderfynodd y byddai'r Is-gadeirydd yn ymgymryd â'r rôl ac roedd yn bresennol yn ei chyfarfod cyntaf ar 11 Medi 2018. Hefyd cytunais i y gallai'r cynrychiolydd fynd ati i gymryd rhan yn y cyfarfodydd, gan geisio cyngor, herio penderfyniadau a dal y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn atebol.

Mae'r adroddiad isod yn amlygu'r gwaith rydym wedi ei wneud dros y flwyddyn ddiwethaf; fel y byddwch yn gweld, bu'r Pwyllgor yn brysur iawn o fis Mehefin 2018 tan fis Mai 2019. Rwy'n credu bod llawer o enghreifftiau da o waith craffu gwych yn yr adroddiad hwn a byddwn yn hoffi meddwl eich bod chi i gyd yn cytuno. Rwy'n edrych ymlaen at gadeirio'r pwyllgor eto yn

19/20 oherwydd, fel rwyf wedi dweud o'r blaen, mae hwn yn bwyllgor craffu hanfodol bwysig, sydd, yn bwysicaf oll, yn edrych ar y penderfyniad a wna'r cyngor hwn a sut maent yn effeithio ar fywydau ein plant yn ein dinas hyfryd.



**Y Cynghorydd Lee Bridgeman**
**Cadeirydd Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc**
**Mehefin 2019**

# CYFLWYNIAD

Mae gan Bwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc rôl bwysig yn y gwaith o asesu perfformiad y gwasanaeth a rhoi gwybodaeth ar gyfer datblygu gwasanaeth a pholisi mewn ystod o wasanaethau'r Cyngor, yn cynnwys pob agwedd ar Addysg, Gofal Cymdeithasol i Blant, Chwarae Plant a'r Gwasanaeth Ieuenctid.

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno prif weithgareddau'r Pwyllgor yn ystod 2018-19 a phan mae'n bosibl, mae'n defnyddio Nodweddion Craffu Da er mwyn sicrhau'r canlynol:

- Canlyniadau gwell – Mae atebolrwydd democrataidd yn arwain ar welliant mewn gwasanaeth cyhoeddus;
- Penderfyniadau gwell – Mae gwneud penderfyniadau'n ddemocrataidd yn atebol, yn gynhwysol ac yn gadarn;
- Cysylltu gwell – Mae'r cyhoedd yn rhan o drafodaeth ddemocrataidd am ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

Rhwng mis Mehefin 2018 a mis Ebrill 2019, cafodd Aelodau'r Pwyllgor hyfforddiant mewn gwybodaeth perfformiad a chyllido ac aethant i ymweld â gwasanaethau'r rheng flaen. Mae'r Pwyllgor wedi craffu ar ystod eang o destunau sy'n cyfrannu at ddatblygu a gwella gwasanaethau plant a phobl ifanc; mae rhestr o'r rhain dan y penawdau isod:

- **Ymholiadau** – Pan yw'r Pwyllgor yn ymchwilio testun dros gyfnod o amser ac y mae hynny wedi arwain at gyflwyno adroddiad ffurfiol i'r Cabinet.

- **Datblygu Polisi** – Pan yw'r Pwyllgor yn cyfrannu at brosesau datblygu polisi'r Cyngor trwy ystyried dogfennau polisi drafft.

- **Cyn Penderfynu** – Pan yw'r Pwyllgor yn gwerthuso a gwneud sylwadau ar gynigion polisi cyn eu cyflwyno i'r Cabinet a rhoi cyfle i'r Cabinet wybod barn Aelodau craffu cyn gwneud eu penderfyniad.

- **Monitro** - Pan yw'r Pwyllgor yn monitro perfformiad a chynnydd y Cyngor o ran rhoi camau gweithredu y cytunwyd arnynt ynghynt ar waith. Hefyd mae'r Pwyllgor wedi sefydlu panel monitro'r Gyllideb.
- **Galw i mewn** – Pan yw Aelod yn galw ar y weithdrefn Galw i Mewn dan gyfansoddiad y Cyngor er mwyn adolygu penderfyniad y Cabinet cyn ei weithredu.

**Adroddiadau ar Ymholiadau**

- ❖ Lleoliadau y tu allan i'r Sir - cafwyd ymateb gan y Cabinet
- ❖ Ymchwiliad i Atal Pobl Ifanc rhag ymwneud â Delio Cyffuriau - ar y Cyd â Phwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedol ac Oedolion - cymeradwywyd ymateb y Cabinet
- ❖ Iechyd Meddwl Plant mewn Addysg - Ymchwiliad parhaus

**Paneli'r Pwyllgor**

- ❖ Fformat adrodd Perfformiad Gwasanaethau Plant

**Datblygu Polisi**

- ❖ Craffu Consortiwm Canol De Cymru - gweithio ar y Cyd
- ❖ Polisi Derbyn i Ysgolion
- ❖ Strategaeth Addysg - Caerdydd 2030 - parhaus
- ❖ Caerdydd: Dinas Sy'n Dda i Blant

**Craffu Cyn Penderfynu**

- ❖ Cynigion Cyllideb 2019-20
- ❖ Cynllun Corfforaethol 2019- 2021
- ❖ Cartref Plant Tŷ Storrie - Darpariaeth uniongyrchol y gwasanaeth
- ❖ Darparu Lleoedd mewn Ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg yn Ardal Llanrhymni
- ❖ Model darparu newydd ar gyfer Helpu a Chefnogi Teuluoedd yng Nghaerdydd
- ❖ Darpariaeth Ysgol Newydd i wasanaethu rhannau o Bontprennau a Phentref Llaneirwg

- ❖ Trefniadau Derbyn i Ysgolion 2020/21 - briff
- ❖ Darpariaeth Ysgol newydd i wasanaethu rhannau o Greigiau/Sain Ffagan, Radur/Pentre-poeth a'r Tyllgoed - briff

**Monitro Perfformiad**

- ❖ Gwasanaethau Plant – Monitro Perfformiad Chwarterol
- ❖ Addysg a Dysgu Gydol Oes – Adroddiad Blynyddol Ysgolion 2017/18 ac adroddiadau perfformiad
- ❖ Consortiwm Canolbarth y De – Cyfraniad y consortiwm at godi safonau yn Ysgolion Caerdydd
- ❖ Gwasanaeth Mabwysiadu Rhanbarthol
- ❖ Adolygiad Blynyddol Teuluoedd yn Gyntaf 2017-18

**Briffio Aelodau**

- ❖ Adroddiad Arolygiad Estyn – Ysgol Gynradd Gatholig Pedr Sant
- ❖ Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (ADY ayyb) 2018
- ❖ Bwrdd Diogelu Corfforaethol – adolygiad o bolisi ac adroddiad ar gynnydd

Mae'r Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc wedi cynnal 12 o gyfarfodydd Pwyllgor llawn, ac un cyfarfod ar y cyd â Phwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedol ac Oedolion ers mis Mehefin 2018. O ganlyniad i ystyried dros 29 o adroddiadau yn trafod llunio polisi, craffu cyn penderfynu, monitro cynnydd a pherfformiad gwasanaeth, anfonodd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu 21 o lythyrau at y Cabinet ac at swyddogion, a oedd yn cynnwys ceisiadau am wybodaeth ychwanegol, sylwadau ac arsylwadau ar eitemau a ystyriwyd yn y Cyfarfodydd Pwyllgor.

Hefyd, o ganlyniad i'r cyfarfodydd hyn, cytunodd y Pwyllgor ysgrifennu at yr Aelod Cabinet perthnasol yn nodi rhai argymelliadau i'r Cabinet ac i swyddogion eu hystyried. Bu i'r Pwyllgor dderbyn ymatebion prydlon gan y Cabinet ar gyfer pob llythyr a oedd yn gofyn am ateb. Yn ogystal, rhoddodd swyddogion wybodaeth yn ôl y gofyn a chytunont i addasu adroddiadau'r dyfodol yn ymateb i ofynion y Pwyllgor.

# CWESTIYNAU CYHOEDDUS AR GYFER CRAFFU – YMGYSYLLTU'N WELL

Mae pum pwyllgor craffu'r Cyngor yn gwahodd dinasyddion, cynrychiolwyr sefydliadau cymunedol a'r trydydd sector yn rheolaidd er mwyn cynnig tystiolaeth yng Nghyfarfodydd y Pwyllgor ac ymholiadau Gorchwyl a Gorffen. Yn ystod 2018/19, bu i'r Pwyllgor hwn dderbyn cyngor, sylwadau a chlywed pryderon gan 52 o gynrychiolwyr a oedd wedi eu gwahodd neu wedi gofyn am gael dod i gyfarfod y Pwyllgor neu'r Grŵp Gorffen a Gorchwyl

Mae'r Pwyllgor wedi ystyried Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn i fod yn ganolog i'w waith erioed, fodd bynnag teimlai'r Cadeirydd y gallai'r Pwyllgor helpu i ddarparu cyfle i bobl ifanc fynegi eu barn a sicrhau bod penderfyniadau a chamau gweithredu er budd gorau pobl ifanc trwy fynychu pob cyfarfod Pwyllgor.  Yn haf 2018, estynnodd y Cadeirydd wahoddiad i'r Cyngor Ieuenctid i fynychu pob cyfarfod y pwyllgor craffu yn y dyfodol. Derbyniodd y Cyngor Ieuenctid y gwahoddiad a phenderfynodd y byddai'r Is-gadeirydd yn ymgymryd â'r rôl ac roedd yn bresennol yn ei chyfarfod cyntaf ar 11 Medi 2018. Hefyd cytunodd y Cadeirydd i y gallai cynrychiolydd y Cyngor Ieuenctid, er nad yw'n aelod llawn o'r Pwyllgor, fynd ati i gymryd rhan yn y cyfarfodydd, gan geisio cyngor, herio penderfyniadau a dal y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn atebol.

Derbyniodd y Cadeirydd geisiadau am bresenoldeb a gohebiaeth gysylltiedig ar nifer o faterion. Caiff yr holl ohebiaeth ei hadolygu a'i gwerthuso cyn pob cyfarfod perthnasol y Pwyllgor a gofynnir i Aelodau a ydynt yn dymuno codi unrhyw faterion ar ran y cyhoedd neu fod y Cadeirydd yn darllen y cwestiynau cyhoeddus ar goedd yn y Pwyllgor er mwyn galluogi'r rhai sy'n bresennol i glywed eu cwestiynau yn cael eu gofyn ac yn cael ymateb gan yr Aelod Cabinet a/neu'r Cyfarwyddwr perthnasol.

Mae canlyniad y camau gweithredu hyn wedi arwain at ymgysylltu gwell gyda phobl ifanc, aelodau'r cyhoedd a phartïon â diddordeb

## Adolygiad Craffu - Penderfyniadau Gwell

Roedd adroddiad ymchwiliad Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) fis Chwefror 2016 yn cynnwys yr argymhellion canlynol, a effeithiodd ar Graffu yng Nghaerdydd.

- Datblygu dull craffu trawstoriadol (o ystyried natur gynyddol gydweithredol darparu gwasanaeth a llywodraethu a'r agenda Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol).
- Ystyried rôl craffu o ran mynd i'r afael â heriau strategol sy'n wynebu'r cyngor ar yr adeg hon.
- Sicrhau bod unrhyw rolau gwag ar bwyllgorau craffu'n cael eu llenwi'n gyflym.
- Ystyried gwe-ddarlledu pwyllgorau craffu.

Mewn ymateb i'r argymhellion mae'r Pwyllgor Craffu wedi gweithredu ystod o gamau gweithredu gwella ac wedi'u hymgorffori i Gynllun Corfforaethol y Cyngor.

Trefniadau i graffu ar faterion trawsbynciol a gafodd eu datblygu gan y Pwyllgor hwn, gan gynnwys:

- Grŵp gorchwyl a gorffen ar y cyd yn trafod materion Cyffuriau.
- Craffu ar y cyd ag awdurdodau cyfagos ar faterion sy'n cynnwys Gwasanaeth Mabwysiadu Rhanbarthol a'r Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De.
- Adroddiad Blynyddol 2018-19 y Cyd-bwyllgor craffu ar Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol

Mae cyfrifoldeb ffurfiol ar Graffu ar Lesiant Cenedlaethau'r Dyfodol - Pwyllgor Adolygu Polisi a Chraffu Perfformiad y Cyngor dros graffu ar Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd. Fodd bynnag, gall pob un o bwyllgorau craffu eraill y Cyngor graffu ar faterion Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus penodol sydd yn ei gylch gorchwyl. Craffodd y Pwyllgor Craffu hwn ar y Byrddau

Gwasanaethau Cyhoeddus ar ei bartneriaeth tair i bum mlynedd gydag Unicef UK er mwyn sicrhau bod holl wasanaethau cyhoeddus Caerdydd yn anelu at ymgorffori hawliau plant drwy gydol y gwasanaethau a ddarperir ledled y ddinas.

Mae swyddi gwag pwyllgorau yn cael eu dyrannu i grwpiau gwleidyddol dan reolau cymesuredd gwleidyddol, ac yn cael eu trafod yn fisol gyda Chwipiau Grwpiau Pleidiau. Cynigiwyd rolau gwag na fu modd eu llenwi gan grŵp gwleidyddol penodol i grwpiau gwleidyddol a chynghorwyr eraill. Drwy gydol y flwyddyn bu aelodaeth y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc yn llawn.

Mae cyfleusterau gwe-ddarlledu ar waith yn Neuadd y Sir ac yn Siambr Neuadd y Ddinas, sy'n caniatáu i rai cyfarfodydd pwyllgorau Craffu gael eu gwe-ddarlledu. Cyfarwyddodd Datganiad Gweithredu'r Rheolwyr gyflwyno gwe-ddarlledu cyfarfodydd pwyllgor i gynnwys un cyfarfod y pwyllgor craffu'r mis o fis Rhagfyr 2016. Ym mis Ebrill 2019, estynnodd y Cyngor ei gysylltiad ar gyfer Gwe-ddarlledu er mwyn gallu darlledu pob cyfarfod Pwyllgor dros y we, os câi ei gynnal yn Ystafell Bwyllgor 4 yn Neuadd y Sir.
Hefyd mae'r Pwyllgor Craffu wedi datblygu a gweithredu dangosydd perfformiad "Nifer y cyfranwyr allanol i gyfarfodydd Craffu" i amlygu lled a dyfnder y dystiolaeth a glywir gan aelodau craffu. O 31 Mawrth 2019 ymlaen mae pwyllgorau craffu wedi derbyn tystiolaeth yn uniongyrchol gan dros 3831 o dystion allanol.

## Datblygu Aelodau'r Pwyllgor – Penderfyniadau Gwell

Mae Craffu yn wasanaeth a arweinir gan Aelodau y mae ei lwyddiant yn gysylltiedig yn agos â gallu a datblygiad Aelodau'r Pwyllgorau Craffu. Gweithiodd y Tîm Craffu felly yn agos â chydweithwyr trwy'r Cyngor er mwyn rhoi ystod barhaus o gyfleoedd i Aelodau i adeiladu ar neu loywi eu sgiliau Craffu a gwella eu gwybodaeth a dealltwriaeth o ystod o faterion perthnasol i'w rôl craffu.

Yn ystod y flwyddyn mae gwasanaethau Craffu wedi trefnu nifer o ddigwyddiadau hyfforddi er mwyn galluogi'r aelodau Craffu newydd i gael trosolwg a dealltwriaeth o'u rolau, gweithgareddau a'u prosesu craffu.

Mae'r Aelodau hefyd yn mynychu cyfarfodydd cyn y Pwyllgor er mwyn trafod, dadansoddi a deall y materion sy'n cael eu hystyried a phan fo angen, gofyn am ragor o eglurhad ar gyfer yr wybodaeth. O hyn, gall yr Aelodau hefyd bennu nifer o drywyddau ymholi ar gyfer y cyfarfod.

## Uchafbwyntiau gwaith y Pwyllgor yn ystod 2018/19

Mae adran hon yr Adroddiad Blynyddol yn cyflwyno uchafbwyntiau gweithgareddau'r Pwyllgor yn ystod 2018-19. Mae'r adroddiad yn nodi'r hyn roedd y pwyllgor craffu yn ceisio ei gyflawni ym mhob darn o graffu a beth y cyflawnodd mewn gwirionedd.

## Ymholiadau Grŵp Gorchwyl a Gorffen - Canlyniadau gwell

Rhan bwysig o waith y Pwyllgor yw adnabod ac ymchwilio un o'r prif feysydd sy'n destun pryder er mwyn sicrhau canlyniadau gwell ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus a sbarduno gwelliant o ran darparu gwasanaeth. Mae'r rhain yn aml yn feysydd nad yw Cyfarwyddiaeth wrthi'n gweithio arnynt, neu rai sy'n drawsbynciol yn ôl eu natur, gan gynnwys nifer o Gyfarwyddiaethau a sefydliadau partner. Adroddir ar ganlyniadau'r ymchwiliadau hyn wrth yr Aelod Cabinet arweiniol er mwyn eu hystyried, a phan fo'n addas, gweithredu argymhellion y Pwyllgor.

### Lleoliadau y tu allan i'r Sir

Gofynnodd tri Aelod Cabinet a Chadeirydd y Pwyllgor am yr ymchwiliad hwn a chafodd ei gefnogi gan bob Aelod Pwyllgor yng nghyfarfod fforwm y rhaglen waith.

Cytunwyd y canlynol fel cylch gorchwyl yr Ymchwiliad:

- Adolygu darpariaeth lleoliadau y tu allan i'r sir, y mathau o ddarpariaeth, cost a'r effaith ar adnoddau

- Adnabod bylchau yn y ddarpariaeth leol, gwasanaethau cymdeithasol ac addysg sy'n arwain at yr angen i leoli plant y tu allan i'r sir.
- Adnabod y rhwystrau rhag darparu cymorth ychwanegol yng Nghaerdydd a'r effaith ar blant sy'n derbyn gofal o ran cael eu lleoli y tu allan i Gaerdydd.

- Ystyried cynlluniau a chynigion i ddarparu darpariaeth wella a phennu effeithiolrwydd y gwelliannau hyn wrth fynd i'r afael â lefelau uchel Caerdydd o ddarpariaeth y tu allan i'r sir.
- Adrodd ar ddarganfyddiadau'r Pwyllgor i'r Cabinet.

Cyflwynwyd adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen i'r Pwyllgor Llawn ar 8 Mai 2018 ac i'r Cabinet ar 5 Gorffennaf 2018. Roedd yr adroddiad yn cynnwys 19 o argymhellion gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen gyda themâu cyffredinol o atal, gweithlu, ymarfer a chomisiynu.
Eir i'r afael ag ymateb y cabinet a gymeradwywyd gan y Cabinet ar 15 Tachwedd 2018 drwy raglen waith Gwella Canlyniadau i Blant gyfredol neu ei ddatblygu fel ffrydiau gwaith newydd. Gellir disgrifio'r themâu cyffredinol fel a ganlyn:

a) Gweithredu model cydlynol, sy'n seiliedig ar dystiolaeth o gymorth cynnar a chefnogaeth i'r teulu;
b) gan sicrhau gweithlu cymwys, hyderus, wedi'i gefnogi a'i grymuso, wedi'u gyflogi ar gontractau parhaus, yn atebol ar gyfer eu harfer, ac â'r offer i wneud eu swyddi;
c) ymgorffori safonau uchel o ran arfer gwaith cymdeithasol gan gynnwys gweithredu'r fframwaith Arwyddion Diogelwch yn llawn;
d) cyflenwad effeithiol o ofal a chymorth o ran llety trwy weithredu gwasanaeth maethu mewnol gwell yng Nghaerdydd a chyflwyno strategaeth comisiynu ar gyfer gofal preswyl a fydd yn darparu digonedd o'r mathau cywir o leoliadau yng Nghaerdydd.

Gyda'i gilydd, mae'r themâu hyn, a'r camau gweithredu manwl oddi tanynt, yn darparu ymateb system gyfan ar gyfer y plant a'r teuluoedd mwyaf agored i niwed yn y Ddinas.

Croesawodd y Cabinet argymhellion y Pwyllgor a chafodd yr holl argymhellion eu derbyn neu eu derbyn yn rhannol.  Hefyd, dywedodd yr ymateb pam mae angen i rai o'r argymhellion penodol iawn gael eu hystyried yn fwy fel cyfeiriad "mewn egwyddor" oherwydd, er enghraifft, i'r anghenraid i ystyried anghenion pob plentyn yn unigol wrth benderfynu ar leoliad addas. Cafodd gweithredu argymhellion y pwyllgor ei alinio â'r ffrydiau gwaith sy'n cael eu cyflawni ar graidd y rhaglen Gwella Canlyniadau i Blant. Mae'r argymhellion, ynghyd â gwaith dadansoddol arall ar y gweill yn y gyfarwyddiaeth, a bu'n ddefnyddiol wrth ail-bwysleisio' angen i fynd i'r afael â gwella'r gweithlu ac arfer yn ogystal â gwella'r materion cyflenwi. Mae gwaith sylweddol eisoes ar y gweill i greu rhagor o ddarpariaeth o ran lleoliadau yng Nghaerdydd ac i fynd i'r afael â chymorth a chefnogaeth gynnar i deuluoedd.

Ym mis Mehefin 2019 bydd y Cabinet yn ystyried mai gweledigaeth y Cyngor yw agor cartrefi plant newydd yn y ddinas, felly gall cael mynediad at y math a lefel gywir o gymorth a sicrhau bod plant Caerdydd yn byw yng Nghaerdydd.  Y dyhead yw agor pum cartref newydd i blant yng Nghaerdydd erbyn mis Rhagfyr 2019.

Hefyd ym mis Mehefin 2019, rhagwelir y bydd yn ystyried adroddiad sy'n disgrifio cynllun strategol 3 blynedd er mwyn cyflawni canlyniadau rhagorol mewn gwasanaethau plant. Bydd yn rhestru sut y bydd y Cyngor a'i bartneriaid yn datblygu atal, yn gwella arfer, yn cefnogi ac yn datblygu'r gweithlu, gwella'r ystod o gynigion gwasanaeth a chyflawni perfformiad gwell.

Roedd y cynigion cyllideb 2019/20 yn cynnwys nifer o arbedion a gafodd eu hadnabod trwy weithredu'r argymhellion o ran ymchwiliadau, roedd y rhain yn cynnwys:

- Trefniadau comisiynu — £1miliwn
- Cynnydd o ran darpariaeth Breswyl y Cyngor — £1.5 miliwn
- Modelau ataliol — £0.5miliwn

## Atal Pobl Ifanc rhag Ymwneud â Delio Cyffuriau - Grŵp Gorchwyl ar y cyd â Gwasanaethau Cymunedol ac Oedolion

Mewn ymateb i lythyr (dyddiedig 27 Mehefin 2017) gan yr Aelod Cabinet dros Dai a Chymunedau, y Cynghorydd Lynda Thorne, bu Grŵp Gorchwyl ar y cyd rhwng y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc a'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedol ac Oedolion yn cynnal ymchwiliadau Gorchwyl a Gorffen i ddelio cyffuriau yng Nghaerdydd. Galwodd cwmpas yr ymchwiliad am archwilio'r sefyllfa yn ardaloedd Butetown a Grangetown yn benodol yn fanwl. Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ar 17 Hydref, 2017, a chadeiriwyd y Grŵp Gorchwyl gan y Cyng. Saeed Ebrahim

Adolygodd y Grŵp Gorchwyl y dystiolaeth a gasglwyd mewn trafodaethau gydag ystod eang o dystion gan gynnwys Aelodau'r Cyngor a swyddogion (gan gynnwys y Gwasanaeth Ieuenctid); sefydliadau'r trydydd sector; Aelodau'r Bwrdd Diogelwch Cymunedol; ysgolion; Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro; preswylwyr a chynrychiolwyr cymunedol; a'r Gwasanaeth Prawf. Hefyd adolygodd yr Aelodau nifer o gyhoeddiadau ac adroddiadau, a datblygodd, dosbarthodd a dadansoddodd arolwg cymunedol er mwyn cael cipolwg ar y farn ar draws Caerdydd. Yn codi o hyn, nodwyd nifer o ddarganfyddiadau allweddol a chytunwyd ar nifer o argymhellion ohonynt.

Ardystiwyd argymhellion y Grŵp Gorchwyl gan bwyllgorau Craffu a'u rhoi i'r Cabinet i'w gweithredu, mewn ymgynghoriad â'r bwrdd diogelwch cymunedol ac â sefydliadau o fewn y trefniadau partneriaeth ehangach yng Nghaerdydd. Cafodd yr argymhellion yn yr adroddiad eu rhannu ag asiantaethau partner i'w hystyried a chawsant eu trafod yn y bwrdd cyflawni diogelwch cymunedol.

Yn ei gyfarfod ar 18 Ebrill 2019, cytunodd y Cabinet
dderbyn 12 o'r 19 argymhelliad, derbyn 6mewn egwyddor a dilyn 1 (Argymhelliad 17). Mae manylion pob argymhelliad yn Atodiad yr adroddiad, gydag esboniad am pam caiff yr argymhelliad naill ai ei dderbyn, ei wrthod neu ei dderbyn mewn egwyddor neu'n rhannol.

Bydd y Pwyllgor yn ystyried ymateb y Cabinet yng nghyfarfod nesaf y cydbwyllgor.

## Iechyd Meddwl Plant mewn Addysg

Yn ystod ei ystyriaeth o eitemau ar gyfer rhaglen waith 2018/19 cytunodd Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc i ymgymryd ag ymchwiliad Gorchwyl a Gorffen i mewn i "Cymorth a Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant", i'w gadeirio gan y Cynghorydd Mike Phillips.
Awgrymwyd yr ymchwiliad gan Gadeirydd y Pwyllgor a chafodd ei gefnogi gan yr Aelodau Cabinet dros Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau a'i gytuno gan holl Aelodau'r Pwyllgor yng nghyfarfod fforwm y rhaglen waith i'w gynnwys yn y rhaglen waith.
Awgrymwyd gan y Pwyllgor y dylai'r grŵp Archwilio gynnwys cynrychiolwyr o'r Cyngor Ieuenctid, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Addysg a Gwasanaethau Plant ac roedd yn agored i'r sawl nad ydynt yn aelodau o'r pwyllgor a phobl ifanc. Hefyd cytunodd y Grŵp i gynnal nifer o gyfarfodydd casglu tystiolaeth gyda rhanddeilliaid allweddol.

Roedd yr ymchwiliad yn ceisio cyngor, sylwadau ac awgrymiadau gan Gadeirydd Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Llywodraeth Cymru, Staff Addysg Llywodraeth Cymru, y Comisiynydd Plant a'r Swyddog Polisi, y Comisiynydd Troseddau a'r Heddlu a swyddog staff, staff y Gwasanaeth Iechyd Meddwl i Blant a'r Glasoed, cynrychiolwyr o Gweithredu Dros Blant, y Samariaid, Sefydliad Iechyd Meddwl Cymru, ymchwilydd ym mhrifysgol Caerdydd, cyn Ddirprwy Bennaeth yn Ysgol Gyfun Trefynwy, cynrychiolydd Grŵp y Rhieni a'r cyngor ieuenctid.

Hefyd ystyriodd y Grŵp adroddiad ar arolwg (9,000 o ddisgyblion) ar iechyd meddwl a lles i fyfyrwyr a gyflwynwyd gan aelodau Cyngor Ieuenctid Caerdydd, barn rhieni ac adroddiad Mind over Matter a gynhyrchwyd gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Yn ddiweddar, mae'r Grŵp wedi cwblhau ei gyfarfodydd casglu tystiolaeth ac ar hyn o bryd mae'n dadansoddi'r wybodaeth i adnabod materion allweddol i'w defnyddio i herio'r rhai sy'n gyfrifol am weithredu cymorth a gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant ar draws pob rhanddeiliad.

Mae'r Grŵp Gorchwyl yn bwriadu cyflwyno ei adroddiad yn yr haf

## Datblygu Polisi a Chraffu Cyn Penderfynu - Penderfyniadau Gwell

Rhan hanfodol o waith y Pwyllgor hwn yw adolygu ac asesu effeithiolrwydd polisïau'r Cyngor a fydd yn effeithio ar fywydau Plant a Phobl Ifanc yng Nghaerdydd. Mae'r Pwyllgor yn ceisio sicrhau bod ei raglen waith yn galluogi craffu ar unrhyw ddatblygiad polisi a phenderfynu ar unrhyw adroddiad Cabinet sy'n ceisio cymeradwyaeth am strategaeth neu bolisi sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae'r Pwyllgor wedi craffu nifer fawr o bolisïau allweddol cyn y penderfyniad, cyn i'r Cabinet eu hystyried:

- Trefniadau Derbyn i Ysgolion 2020/21
- Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion
    - Darparu Lleoedd mewn Ysgolion Cynradd cyfrwng Saesneg yn ardal Llanrhymni
    - Darpariaeth Ysgol Newydd i wasanaethu rhannau o Bontprennau a Phentref Llaneirwg
    - Darpariaeth Ysgol Newydd i wasanaethu rhannau o Greigiau/ Sain Ffagan/Radur/Pentre-poeth a'r Tyllgoed
- Datblygu Strategaeth Addysg Caerdydd 2030
- Caerdydd: Dinas Sy'n Dda i Blant
- Cynigion Cyllideb 2019 - 2020
- Cynllun Corfforaethol 2018-2021
- Cartref Plant Tŷ Storrie
- Model Dosbarthu Newydd ar gyfer Cymorth a Chefnogaeth i deuluoedd yng Nghaerdydd

Isod ceir manylion o grynodeb o'r gwaith craffu cyn y penderfyniad a wnaed gan y Pwyllgor

### Trefniadau Derbyn i Ysgolion

Yn unol â’r weithdrefn statudol, ystyriwyd adroddiad Cabinet drafft ar Drefniadau Derbyn i Ysgolion 2020/21 gan y Pwyllgor ym mis Mawrth 2019.

Darparodd yr adroddiad ganlyniad yr ymgynghoriad a wnaed parthed meini prawf derbyn i ysgolion i’r Pwyllgor ac wedyn i’r Cabinet a newidiadau arfaethedig i drefniadau derbyn i ysgolion Cyngor Caerdydd.

Ar ôl ystyried yr adroddiad drafft, ysgrifennodd y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet cyn cyfarfod y Cabinet, gan ddweud bod y Pwyllgor yn argymell i’r Cabinet y dylai ymgynghoriadau yn y dyfodol amlygu’r diwygiadau arfaethedig i’r Polisi ar wahân, gan fod y newidiadau wedi’u cynnig yn fychan, fel y dangosir yn adroddiad y Cabinet, i alluogi’r cyhoedd i weld y newidiadau’n glir. Yn olaf trafododd y Pwyllgor y materion ynghylch niferoedd derbyn, dalgylchoedd, gwahanu a chapasiti ysgolion, a chytunodd y byddai’n blaenoriaethu gwneud ymchwiliad craffu, yn rhan o raglen waith y flwyddyn nesaf, i helpu i ddatblygu cynnig i fynd i’r afael â’r materion hyn.

## Cynllun Trefniadaeth Ysgolion

Ym mis Rhagfyr 2017, cytunodd y Cabinet ddatblygu nifer o gynlluniau Band B Trefniadaeth Ysgolion sy’n cwmpasu ysgolion Uwchradd, Cynradd ac ysgolion arbennig. O ganlyniad cafodd nifer o gynigion eu cyflwyno i’r Pwyllgor yn ystod blwyddyn y Cyngor, gan geisio cymeradwyaeth y Cabinet i’w gweithredu, roedd y rhain yn cynnwys:

- Ymgynghoriad cyhoeddus ar gynigion i resymoli lleoedd mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg yn ardal Llanrhymni, gan gynnwys cynnig i gau Ysgol Gynradd Glanyrafon ym mis Awst 2019
- Rhoi gwybod i’r Cabinet am ymatebion a gafwyd ar ôl ymgynghori ar gynigion i resymoli lleoedd mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg yn ardal Llanrhymni, gan gynnwys cynnig i gau Ysgol Gynradd Glanyrafon ym mis Awst 2019
- Ymgynghoriad cyhoeddus ar gynigion i ddatblygu safle Doyle Avenue, lle y mae’r Ysgol Uwchradd Cantonian bresennol.

- Hysbysu’r Cabinet ynghylch ymatebion a dderbyniwyd yn dilyn ymarfer ymgysylltu â’r cyhoedd ar gynnig codi adeilad newydd ar gyfer Ysgol Uwchradd Fitzalan
- Ystyried sefydlu ysgol gynradd newydd mewn adeiladau newydd ar ddatblygiad tai Sant Edern ym Mhontprennau a Phentref Llaneirwg

- Cynnig sefydlu ysgol gynradd newydd mewn adeilad newydd ar safle i wasanaethu rhannau o Greigiau, Sain Ffagan, Radur, Pentre-poeth a’r Tyllgoed.

Adolygodd y Pwyllgor y wybodaeth ym mhob adroddiad Cabinet drafft a chytunodd roi cyngor a sylwadau i’r Cabinet cyn iddynt ystyried pob adroddiad.

## Strategaeth Addysg Caerdydd 2030

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Addysg wybod i’r Pwyllgor bod angen adnewyddu Strategaeth Addysg Caerdydd 2020 a dechrau datblygu strategaeth ar gyfer y 10 mlynedd nesaf (Caerdydd 2030) Datblygodd y Gyfarwyddiaeth Addysg Gonfensiwn Addysg Caerdydd - “ffurfio cwricwlwm newydd i Gymru”. Gwahoddwyd Aelodau’r Pwyllgor i fod yn bresennol ac wedyn cafodd y Pwyllgor ei friffio, ym mis Tachwedd 2018, ar adborth gan y Confensiwn yn ogystal â darparu rhywfaint o safbwyntiau ac awgrymiadau er mwyn parhau â’r “Sgwrs Ddinesig” ar gyfer datblygu Addysg yng Nghaerdydd yn y dyfodol. Wedyn cynhaliodd Aelodau’r Pwyllgor weithdy rhyngweithiol, ym mis Mawrth 2019, gyda Swyddogion o’r adran Addysg i fyfyrio ar gyflawniadau a heriau sy’n codi o Gaerdydd 2020 ac i helpu i ddatblygu’r weledigaeth ar gyfer Caerdydd 2030.

Rhoddwyd gwybod i’r Aelodau y byddai strategaeth ddrafft ar gael i wneud sylwadau arni a rhoi cyngor yn haf 2019 ac y byddai drafft terfynol i’w ystyried yn hydref 2019.

## Cynllun Corfforaethol Drafft a Chynigion Cyllidebol 2019-20

Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn caniatáu i bwyllgor craffu ystyried cynigion cyllideb drafft y Pwyllgor cyn i'r Cabinet a'r Cyngor Llawn eu hystyried. Ystyriodd y Pwyllgor Gynllun Corfforaethol drafft y Cyngor a'r cynigion cyllidebol drafft ar gyfer 2019-20, gan gynnwys cynigion arbedion manwl a'r Rhaglen Gyfalaf yn ei gyfarfod ym mis Chwefror 2019, yn ogystal â phrofi eu heffaith ar ddeilliannau i blant a phobl ifanc.

Nododd y Pwyllgor nifer o faterion ynghylch adroddiadau'r Cynllun Corfforaethol, y Gyllideb Gorfforaethol a Chyllideb y Gyfarwyddiaeth. Cafodd y pryderon hyn eu cynnwys mewn llythyr a anfonwyd at y Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad i'w ystyried wrth iddo adolygu'r Cynllun Corfforaethol cyffredinol, yr Ymgynghoriad a'r cynigion Cyllideb ar 18 Chwefror 2019 ac i'r Cabinet i'w ystyried yn ei gyfarfod ar 21 Chwefror 2019.

Ystyriodd y Cabinet a'r Cyngor Llawn lythyr y Pwyllgor yn ystod eu trafodaethau ar y cynigion. Gwnaeth yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad hefyd ymateb i'r llythyr gan roi eglurhad llawn o'r pwyntiau am yr arbedion cyllidebol penodol a nodwyd gan y Pwyllgor. O ganlyniad, cynyddwyd y gyllideb wrth gefn ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal yn ogystal ag adolygu nifer o dargedau perfformiad er mwyn sicrhau eu bod yn briodol i'r sefyllfa bresennol.

## Adroddiad Arolygiad Estyn – Ysgol Gynradd Gatholig Pedr Sant

Ystyriodd y Pwyllgor, yn ei gyfarfod yn 18 Ionawr 2019, fel eitem Frys, Adroddiad Arolygu Estyn a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar Ysgol Gynradd Gatholig Pedr Sant. Croesawodd y Pwyllgor ymateb y Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes i'r adroddiad ar yr Arolygiad Estyn ar Ysgol Pedr Sant a barn yr arolygydd bod angen mesurau arbennig mewn perthynas â'r ysgol hon.

Roedd y Pwyllgor yn fodlon ar y briff a ddarparwyd, ac y cytunwyd eisoes ar gamau gweithredu, yn dilyn yr ymgynghoriad priodol, a'u bod yn cael eu gweithredu fel mater o frys.

## Model cyflawni newydd ar gyfer Cymorth a Chefnogaeth i Deuluoedd yng Nghaerdydd

Ystyriodd y Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 9 Hydref 2018 adroddiad drafft y Cabinet yn disgrifio model cyflawni newydd ar gyfer gwasanaethau cymorth ac atal cynnar i deuluoedd, plant a phobl ifanc yn unol ag ymrwymiad Uchelgais Prifddinas y Cyngor i fod â darpariaeth Cymorth Cynnar well.

Mae adroddiad drafft y Cabinet yn ceisio galluogi Cyngor Caerdydd i ymateb i'r heriau a'r materion y mae'n eu hwynebu trwy ystyried trefniant arfaethedig yn y dyfodol, sy'n dod â gwasanaethau presennol ynghyd ac i ddarparu gwasanaeth cefnogi cymorth cynnar cynhwysfawr ar gyfer teuluoedd a phlant. Byddai'r model newydd yn bodloni'r gofyniad statudol i ddarparu Cyngor a Chymorth Gwybodaeth ar gyfer pob teulu wrth ddarparu cymorth mwy dwys ar gyfer y rhai mae arnynt ei angen ar sail "y cymorth cywir, ar yr amser cywir".

Croesawodd y Pwyllgor y cyfle i adolygu'r Adroddiad Cabinet drafft cyn ei ystyried yn y Cabinet ar 11 Hydref 2018. Yn ystod yr adran yn y cyfarfod ar y ffordd ymlaen, ystyriodd yr Aelodau y wybodaeth yn yr adroddiad, ynghyd ag atebion i'w cwestiynau, a chytunodd y Pwyllgor gyflwyno'r adroddiad drafft i'r Cabinet. Fodd bynnag, nid oedd y Pwyllgor yn hollol gyfforddus gyda goblygiadau ariannol y fframwaith, ac yn benodol gyda'r trefniadau ar TUPI ar gyfer staff a'r hyfforddiant mae ei angen o ganlyniad. Felly awgrymodd yr Aelodau y dylai'r Swyddogion fonitro ariannu model cyflawni newydd yn fanwl, yn ogystal â'r trefniadau TUPI a hyfforddiant angenrheidiol y staff sy'n trosglwyddo i'r gwasanaethau newydd, er mwyn sicrhau gweithredu'r model cyflawni newydd yn effeithiol.

## Caerdydd: Dinas Sy'n Dda i Blant

Ym mis Tachwedd 2018, cytunodd y Pwyllgor dderbyn adroddiad cynnydd ar ddatblygiad rhaglen i sicrhau y cydnabyddir Caerdydd yn fyd-eang fel Dinas sy'n Dda i Blant, trwy gyfranogi yn Rhaglen Cymunedau a Dinas sy'n Dda i Blant

Unicef UK. Roedd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (PSB) i ystyried strategaeth ddrafft yn ei gyfarfod ar 20 Tachwedd ac mae’r adroddiad hwn yn rhoi cyfle i’r Pwyllgor ystyried ac adolygu’r strategaeth ddrafft.
Roedd y Pwyllgor yn hollol gefnogol o’r strategaeth yn ogystal â sicrhau bod Plant a Phobl Ifanc wrth ganol pob penderfyniad a wneir sy’n effeithio arnynt. Hefyd gwnaed argraff dda ar y Pwyllgor gan y gwaith sy’n cael ei wneud gan Chwarae Cymru er mwyn cefnogi a threfnu cau’r strydoedd fel y gall plant chwarae’n ddiogel y tu allan i’w cartrefi “Chwarae yn y Stryd”, a chynigodd eu cefnogaeth ar gyfer parhau â’r fenter hon.

Roedd y Pwyllgor yn teimlo bod y Strategaeth yn rhy eiriog ac nad oedd yn Dda iawn i Blant ac awgrymodd y dylai’r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus lunio fersiwn o’r Strategaeth a fyddai’n dda i blant. Hefyd ystyriodd y Pwyllgor, cyn y câi’r Strategaeth ei chymeradwyo, y dylid ceisio barn sefydliadau Chwaraeon ac Ieuenctid a’u cynnwys yn y ddogfen derfynol.

Hefyd nododd y Pwyllgor y cafodd model Caerdydd ei seilio ar yr un a ddefnyddir yn Leeds, fodd bynnag roedd rhai aelodau’n ymwybodol bod model Leeds wedi cynnwys y Sector Preifat yn ei strategaeth a theimlwyd y câi Strategaeth Caerdydd ei chryfhau trwy gynnwys grwpiau’r Sector Cyhoeddus wrth sicrhau bod Caerdydd yn Ddinas sy’n Dda i Blant. Yn ogystal, byddai ymglymiad y trydydd Sector yn gwella cwmpas y Strategaeth ac awgrymwyd y dylent hefyd gymryd rhan yn y strategaeth.

Yn olaf gofynnodd yr Aelodau bod cyflwyno’r adroddiad cynnydd yn y dyfodol yn galluogi’r Pwyllgor i adolygu gweithredu’r strategaeth a monitro Cynnydd.

## Monitro Perfformiad – Canlyniadau Gwell

Mae gan y Pwyllgor rôl ddiffiniedig glir yn nhrefniadau gwella a llywodraethu’r Cyngor, ac mae ei raglen waith yn cynnwys lefel uchel o fonitro ac adolygu perfformiad Cyfarwyddiaethau, rheoli adnoddau, gosod targedau a rheoli perfformiad.

## Adroddiadau Perfformiad Chwarterol - Gwasanaethau Plant

Yn ystod 2018/19 nododd y Pwyllgor welliant cyffredinol o ran perfformiad mewn sawl dangosydd; fodd bynnag, mynegont eu pryder ynghylch rhai dangosyddion lle’r oedd gostyngiad mewn lefelau perfformiad. Mae’r Pwyllgor wedi adolygu pob adroddiad perfformiad corfforaethol chwarterol gyda chyfres o ddangosyddion lleol y mae'r Aelodau wedi gofyn y caent eu monitro'n gyson.

Ar ddechrau’r flwyddyn, trafododd y Pwyllgor adolygu fformat a ffocws adroddiadau perfformiad y dyfodol a chytunwyd i sefydlu panel perfformiad er mwyn helpu i ddatblygu adroddiad perfformiad mwy priodol i'r Pwyllgor.  Cytunwyd ar fformat diwygiedig gyda swyddogion o’r Gwasanaethau Cymdeithasol a theimlai’r Aelodau fod hyn yn rhoi golwg llawer cliriach ar y perfformiad presennol, sut mae wedi newid, a’r camau gweithredu sy’n cael eu rhoi ar waith er mwyn gwella’r meysydd sy’n peri pryder

## Adroddiadau Perfformiad – Addysg a Dysgu Gydol Oes

Parhaodd y Pwyllgor gyda’i ddull o ran craffu perfformiad addysgol drwy drefnu archwiliadau cyson drwy gydol y flwyddyn ar agweddau penodol ar berfformiad, ynghyd â throsolwg ar berfformiad blynyddol ym mis Ionawr. Mae’r cyfarfodydd wedi canolbwyntio ar weithredu strategaeth Caerdydd 2020 ynghyd â’r adroddiadau Perfformiad Corfforaethol Addysg.

Mae’r adroddiadau monitro perfformiad yn galluogi’r Pwyllgor i adolygu, asesu a herio gweithredu’r holl gamau, ac felly hefyd darparu addysg o safon a chyflawni canlyniadau gwell i blant a phobl ifanc yn ysgolion Caerdydd.

Mae’r Pwyllgor wedi ysgrifennu at yr Aelod Cabinet yn rheolaidd gan geisio eglurder ynglŷn â chamau gweithredu a gwelliannau perfformiad arfaethedig.

## Panel Craffu Consortiwm Canolbarth y De

Sefydlwyd panel Craffu Consortiwm Canolbarth y De yn 2017 gyda'r Cadeiryddion a'r swyddogion o bum Pwyllgor Craffu'r Awdurdod Lleol (Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful a Bro Morgannwg).

Mae'r cyfrifoldeb statudol dros berfformiad ysgolion yn aros gydag Awdurdodau Lleol unigol

ynghyd â pherfformiad y Consortiwm cysylltiedig, gyda staff y Consortiwm yn bresennol; fodd bynnag, mae craffu ar y Consortiwm ei hun hefyd yn hanfodol ac mae angen rhoi strwythur craffu priodol ar waith i ystyried perfformiad y rhanbarth a rhannu arfer gorau a gwybodaeth ar draws y pum Pwyllgor Craffu.

Mae'r panel yn cwrdd deirgwaith y flwyddyn ac mae cyfarfodydd wedi'u trefnu yn fuan ar ôl pob cyfarfod Cydbwyllgor y Consortiwm.

Byddai cylch gorchwyl y gweithgor yn ystyried eitemau sefydlog, megis:

- Cynnydd y Consortiwm yn ôl ei Gynllun Busnes tair blynedd, yn rheolaidd;
- Tueddiadau perfformiad rhanbarthol;
- Rhannu arfer craffu gorau ar draws y rhanbarth;
- Hefyd bydd y Grŵp hefyd yn adrodd yn flynyddol wrth y Pwyllgor Craffu perthnasol ym mhob awdurdod lleol a/neu roi adborth i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu perthnasol ym mhob awdurdod lleol;
- Rhannu nodiadau o'i gyfarfod â'r Cydbwyllgor a derbyn ymateb i'r rhain gan y Cydbwyllgor.

Mae'r panel hwn wedi cytuno ar ei raglen waith ac mae eisoes wedi cynnal dau gyfarfod.

## Adroddiadau Briffio'r Pwyllgor – Canlyniadau Gwell

Cytunodd y Pwyllgor dderbyn papurau briffio y tu allan i'w agenda arferol er mwyn gallu eu hadolygu'n fwy effeithiol. Cytunodd y Pwyllgor i dderbyn y briffiau hyn pryd bynnag y byddent ar gael.

Ymhlith y pynciau a drafodwyd roedd:

- **Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg 2018** Roedd gwir ddiddordeb gan y Pwyllgor i glywed am y newidiadau hanfodol sy’n ofynnol gan y Ddeddf a theimlent bellach fod ganddynt ddealltwriaeth well o oblygiadau’r Ddeddf a’r newidiadau sy’n ofynnol er mwyn gweithredu’r Ddeddf a’r Cod yn llwyr.

  Awgrymodd y Pwyllgor y cynigir ymgymryd ag archwiliad i barodrwydd yr Awdurdod Lleol ac archwiliad i barodrwydd ysgolion unigol, gofynnodd yr Aelodau am friff ar gynnydd yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

  Hefyd mynegodd y Pwyllgor bryder na fyddai gweithredu gofynion y Ddeddf yn niwtral o ran adnoddau, a gofynnodd am amcan o’r gost a ragwelid ar gyfer gweithredu gofynion y Ddeddf yn llawn.

- **Polisi Diogelu – Adroddiad ar Gynnydd ac Adolygu Polisïau**

  Roedd y Pwyllgor yn falch o’r cynnydd a wnaed dros y 18 mis diwethaf, yn enwedig gan fod y Polisi Diogelu Corfforaethol wedi cael ei adolygu a’i gryfhau. Cydnabu’r Aelodau fod diogelu plant ac oedolion yn fater i bawb ac yn hynny o beth bydd y Polisi yn ymwneud nid yn unig â gweithlu’r Cyngor a’r Aelodau Etholedig, ond hefyd â sefydliadau partner.

  Fodd bynnag, argymhellodd yr Aelodau y dylai’r bwrdd diogelu:

  - Estyn codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant i bob ysgol yng Nghaerdydd, yn cynnwys y disgyblion a’r staff.

  - Darparu papur briffio ar gynnydd i’r Pwyllgor ar lefel cydymffurfiaeth yr hyfforddiant diogelu ar draws y Cyngor, yn yr haf.

Mae canlyniad adolygiad yr aelodau o’r briffiau wedi’i adrodd i’r Pwyllgor ac mae llythyrau priodol wedi’u hanfon at y cyfarwyddwyr. Ymatebwyd i bob cais am wybodaeth yn brydlon, ac adroddwyd yn ôl wrth yr Aelodau.

## Eitemau a Awgrymir ar gyfer Rhaglen Waith 2019/20

Mae'r Pwyllgor yn derbyn diweddariadau cyson am y rhaglen waith y mae modd i'r aelodau ystyried eitemau sy'n cael eu hawgrymu gan aelodau'r cyhoedd, pobl ifanc, sefydliadau, ac aelodau'r Cyngor a phwyllgorau craffu eraill er mwyn eu cynnwys yn y rhaglen waith. Gall Aelodau'r Pwyllgor hefyd awgrymu unrhyw fater newydd all fod o ddiddordeb i'r Pwyllgor. Pe byddai'r Pwyllgor yn ystyried rhaglen waith newydd ar gyfer blwyddyn 2018/19, hoffai'r Pwyllgor argymell ystyried yr eitemau canlynol i'w cynnwys yn ei raglen waith:

- Materion ynglŷn â niferoedd derbyn, dalgylch, gwahaniad a chapasiti ysgolion.
- Darpariaeth lleoliadau maethu mewnol ar gyfer plant Caerdydd sy'n derbyn gofal
- Recriwtio a chadw gweithwyr cymdeithasol

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gydlynu'r gwaith o lunio'r prif strategaethau a chynlluniau sy'n ymwneud â datblygu a darparu gwasanaethau ar draws amrywiaeth o wasanaethau ac asiantaethau.  Gallai rhaglen waith y Pwyllgor yn y dyfodol gynnwys:

- Strategaeth Caerdydd 2030
- Cynllun Corfforaethol a'r Gyllideb
- Tîm Integredig Cymorth i Deuluoedd
- Tŷ Storrie - diweddariad
- Caerdydd: Dinas Sy'n Dda i Blant - diweddariad
- Bwrdd Diogelu Corfforaethol - briff ar gynnydd

Bydd y Pwyllgor yn adnabod rhagor o faterion i'w hystyried yn ystod mis Gorffennaf/Awst 2019. Awgrymir hefyd y dylai'r Pwyllgor barhau i dderbyn cynnydd ac adroddiadau perfformiad cyson ar:

- Berfformiad y Gwasanaethau Plant
- Perfformiad Ysgolion
- Cynigion a Monitro Cyllidebol
- Monitro argymhellion yr adroddiad Allan o'r Sir

Gwasanaethau Craffu, Dinas a Sir Caerdydd,
Ystafell 263, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd. CF10 4UW
029 2087 2781 E-bost: barngraffu@caerdydd.gov.uk
© 2019 Dinas a Sir Caerdydd